WHC/2018/047

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: Tachwedd 6 2018**

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: CYLLID / POLISI**

**Teitl:** Cyhoeddi Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion ar gyfer Gofal Iechyd Trawsffiniol y GIG i Gymru a Lloegr

**Dyddiad dod i ben / adolygu -** Adolygu dair blynedd ar ôl gweithredu

**I'w weithredu gan:**
Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG Cymru
Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Llywodraethiant Corfforaethol
Ysgrifenyddion Byrddau
WHSSC

**Camau i'w cymryd erbyn:** *(Insert Date)*
Gweler paragraff ….

**Anfonir gan:** Padraig McNamara, Tîm Canolog Deddfwriaeth, Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**

*(Insert Name, Branch, Directorate, Contact Address, Contact Telephone Number)*
Padraig McNamara, Tîm Canolog Deddfwriaeth, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, Llinell Uniongyrchol: 03000 253435

CentralLegislationSupport@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion

**WHC 2018/047- Cyhoeddi Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion ar gyfer Gofal Iechyd Trawsffiniol y GIG i Gymru a Lloegr**

Annwyl Gyfaill

**Diben**

Nod y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu sylw at y ffaith bod Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion wedi cael ei gyhoeddi sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol y cytunwyd arnynt rhwng GIG Cymru a GIG Lloegr mewn perthynas â thrin cleifion ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

**Cefndir**

Mae'r Protocol Trawsffiniol y GIG blaenorol wedi bod mewn effaith ers 2013. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cytunodd Llywodraeth Cymru weithio gydag Adran Iechyd San Steffan a GIG Lloegr i wneud newidiadau a fyddai'n ymateb i sefyllfa cleifion sy'n preswylio yn Lloegr sydd wedi cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru a'u galluogi i gael gofal eilaidd yn Lloegr ac arfer eu hawl cyfansoddiadol i ddewis.

Cafodd y Gwasanaeth Asesu Atgyfeiriadau ei ddatblygu fel mecanwaith i alluogi cleifion sy'n preswylio yn Lloegr sydd wedi cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru gael eu hatgyfeirio i gael gofal eilaidd yn Lloegr. Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Amwythig sy'n cynnal y Gwasanaeth Asesu Atgyfeiriadau ac mae'n gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer meddygon Cymru sydd ar y ffin wrth iddynt atgyfeirio cleifion trawsffiniol o Loegr i ofal eilaidd dan arweiniad ymgynghorydd.

O ganlyniad i'r newid hwn, mae Protocol Trawsffiniol y GIG wedi cael ei adolygu gan Rwydwaith Trawsffiniol y GIG, sef grŵp a ffurfiwyd i drafod materion penodol yn ymwneud â materion gofal iechyd i gleifion ar bob ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r Rhwydwaith yn gyfrifol am wneud argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â gofal iechyd trawsffiniol ond nid yw'n gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniadau terfynol. Mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys y Byrddau Iechyd Lleol a Grwpiau Comisiynu Clinigol sy'n cymryd rhan uniongyrchol mewn materion gofal iechyd trawsffiniol, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), a chynrychiolwyr o Gynghorau Iechyd Cymuned a Healthwatch yn Lloegr. Mae cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, GIG Lloegr ac Adran Iechyd San Steffan hefyd yn mynychu.

Mae Protocol Trawsffiniol y GIG yn cael ei ddisodli gan Ddatganiad o Werthoedd ac Egwyddorion, sy'n cynnwys newidiadau i adlewyrchu'r broses atgyfeirio newydd i feddygon teulu mewn perthynas â chleifion o Loegr sydd wedi cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cyflwyno egwyddorion cyffredinol, gan gynnwys safonau a hawliau cyfreithiol, egwyddorion ariannol a sut y bydd y Datganiad yn cael ei adolygu a'i ddiwygio o bosibl yn y dyfodol. Mae'r atodiadau i'r Datganiad yn darparu manylion gweithredu'r llif cleifion trawsffiniol.

Mae'r egwyddor allweddol sy'n sail i'r Datganiad yn parhau, sef na ddylid gwrthod triniaeth nac oedi wrth gynnig triniaeth oherwydd ansicrwydd neu amwysedd yn gysylltiedig â pha gorff ddylai fod yn gyfrifol am gyllido darpariaeth gofal iechyd unigolyn.

**Cam gweithredu y mae'n ofynnol cydymffurfio mewn perthynas ag ef**

Bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn glynu at y gwerthoedd a'r egwyddorion a nodir yn y Datganiad ar ei newydd wedd a'r atodiadau cysylltiedig. Ni ddylai fod unrhyw rwystr i gleifion sy'n preswylio yn Lloegr sydd wedi cofrestru â phractisau meddygon teulu ar y ffin yng Nghymru sydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth Asesu Atgyfeiriadau gael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd dan arweiniad ymgynghorydd yn Lloegr (fel y nodir yn y Datganiad).

Yn benodol, ni ddylai Byrddau Iechyd a WHSSC wrthod cymeradwyaeth ar sail cyllid ar gyfer atgyfeiriadau i'r rheini sy'n preswylio yn Lloegr sy'n dewis cael triniaeth gyda darparwyr sydd y tu allan i'r trefniadau gofal iechyd presennol. Mae Byrddau Iechyd Lleol a WHSSC yn cael cyllid i dalu’r costau hyn drwy ddyraniad cyllid gwaelodol gan Lywodraeth Cymru. O dan delerau'r Datganiad, mae'r cleifion hyn yn cael eu trin yn unol â pholisi GIG Lloegr, nid polisi Cymru.

Rhestr Ddosbarthu

**Ysgrifenyddion Byrddau**

AaGIC
Abertawe Bro Morgannwg
Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Ysgrifennydd Grŵp yr Ysgrifenyddion Bwrdd

**Prif Weithredwyr**

AaGIC
Abertawe Bro Morgannwg
Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cadeiryddion**

AaGIC
Abertawe Bro Morgannwg
Aneurin Bevan
Betsi Cadwaladr
Caerdydd a'r Fro
Cwm Taf
Hywel Dda
Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru  (WHSSC)**
Cyfarwyddwr Cyllid

**Llywodraeth Cymru**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwyr Perthnasol